**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/1929/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Awst 2015

Annwyl David

Rwy'n cyfeirio at fy natganiad ysgrifenedig ar 10 Mehefin ynghylch cymeradwyo cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Fel y cofiwch adeg pasio Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, rhoddais sicrwydd y byddai archwiliadau priodol yn cael eu gosod i sicrhau bod cynlluniau tymor canolig integredig yn gadarn a bod modd eu cyflawni.

Cymeradwyais bum cynllun ym mis Mehefin (byrddau iechyd prifysgol Cwm Taf ac Aneurin Bevan, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre) a dywedais y byddai fy swyddogion yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro i ddatblygu ymhellach a phrofi manylder eu cynlluniau. Cwblhawyd y gwaith hwn a chymeradwywyd cynlluniau tymor canolig integredig y ddau sefydliad yn 2015-16.

Fodd bynnag, cymeradwywyd yn amodol ar nifer o delerau ac amodau, a fydd yn destun craffu agos dros y misoedd nesaf. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:

- Dangos tystiolaeth o berfformiad gwell ar draws targedau haen un a sicrhau y caiff safonau ansawdd eu cynnal a'u gwella ym mhob gwasanaeth;

- Sicrhau rheolaeth ariannol dda ar y cynllun.

Caiff perfformiad yn erbyn yr amodau hyn ei olrhain drwy drafodaethau rhwng prif weithredwyr a chadeiryddion, cyfarfodydd ansawdd, diogelwch a chyflawni, a chyd-gyfarfodydd timau gweithredol. Lle ceir amrywiadau annerbyniol o'r cynllun y cytunwyd arno, bydd sefydliad yn destun mwy o drefniadau monitro, herio, cymorth ac uwchgyfeirio, a gallai golli'r breintiau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o'r drefn cynllunio tymor canolig.

Mae fy mhenderfyniad yn arwydd o'r trylwyrder parhaus sydd ei angen i weithredu'r trefniadau a amlinellir yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Elin Jones AC, Kirsty Williams AC a Darren Millar AC a rhoddwyd copi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services